Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Yr Economi; Menter; Trafnidiaeth; Dysgu Gydol Oes

Croeso i'r bwletin olaf ar waith y Pwyllgor Menter a Dysgu

Y Pwyllgor Menter a Dysgu yw un o Bwyllgorau Craffu **Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** Ei brif swyddogaeth fu dwyn **Llywodraeth Cynulliad Cymru** i gyfrif drwy edrych ar wariant, gweinyddiaeth a pholisïau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn y meysydd a ganlyn:

- **Datblygu economaidd ac adfywio**
- **Menter gymdeithasol**
- **Trafnidiaeth**
- **Addysg, dysgu gydol oes a sgiliau**

Rhwng mis Mehefin 2007 a mis Mawrth 2011 cyhoeddodd y Pwyllgor 38 o adroddiadau ar amrywiol bynciau o fewn ei gylch gwaith, sy'n cynnwys datblygu economaidd, trafnidiaeth, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Yn ei rôl o ddiweddaru polisïau a gwariant Llywodraeth Cymru, cyfarfu'r Pwyllgor 103 o weithiau yn gyhoeddus, bu'n holi tystion 557 o weithiau a chroesholodd Weinidogion Cymru ar 51 achlysur. Gwnaeth y Pwyllgor 349 o argymhellion i'r Gweinidogion ac roedd yn gyfrifol am brysuro'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig pwyllgor cyntaf a'r olaf drwy'r Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU.

Mae holl waith y Pwyllgor, gan gynnwys agendâu, papurau, trawsgrifiadau ac adroddiadau, ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home.htm

Hanner nos ar 31 Mawrth 2011, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cael ei ddiddymu tan yr etholiadau ar 5 Mai 2011. Golyga hyn y bydd y Pwyllgor Menter a Dysgu yn peidio â bodoli a bydd ei aelodau yn peidio â bod yn Aelodau Cynulliad.

Y newyddion diweddaraf – gwanwyn 2011

Yr agenda wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (y pynciau STEM)

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, 'Yr agenda wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)', ar 28 Ionawr 2011. Bu dadl ar yr adroddiad ac ymateb y Gweinidog iddo yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mawrth 2011.

Gellir gweld yr adroddiad, ymateb y Gweinidog a thrawsgrifiad y Cyfarfod Llawn drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_stem/el_inq_stem_evidence.htm

Grŵp rapporteur ar ddwyieithrwydd

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar ail gam ei ymchwiliad i ddwyieithrwydd yng Nghymru, 'Hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle a rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd', ar 1 Chwefror 2011. Bu dadl ar yr adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth 2011.

Gellir gweld yr adroddiad, ymateb Llywodraeth Cymru a thrawsgrifiad y ddadl drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_bilingual-work.htm

Adolygu'r ymdriniaeth â Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) y Pwyllgor

Gosodwyd Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer datblygu a chynnal rhwydwaith cenedlaethol o lwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr gerbron Senedd y DU ar 3 Chwefror 2011. Tynnodd y Pwyllgor y Gorchymyn yn ôl yn dilyn y refferendwm ar 3 Mawrth 2011 gan fod y canlyniad cadarnhaol yn golygu y cafodd y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd yn awtomatig i ddeddfu yn y maes hwn.

Yn ei adroddiad etifeddiaeth i'r pedwerydd Cynulliad, argymhellodd y Pwyllgor y dylai un o bwyllgorau'r Cynulliad nesaf gynnig Bil Cynulliad yn gynnar yn y tymor a fyddai'n gosod dyletswydd ar awdurdodau

priffyrdd i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau di-draffig drwy Gymru ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Craffu dilynol

Nid oedd digon o amser yn ystod tymor olaf y Trydydd Cynulliad i'r Pwyllgor ddechrau ar ymchwiliadau newydd a oedd yn gofyn am ymateb gan Weinidogion a dadleuon yn y Cyfarfod Llawn cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei ddiddymu am hanner nos ar 31 Mawrth 2011. Felly, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar ddilyn hynt ei adroddiadau ar ymchwiliadau blaenorol ac ar fonitro'r cynnydd a wnaed gan y Llywodraeth wrth weithredu'i argymhellion. O'r sesiynau hynny, deilliodd nifer o faterion yr oedd angen rhagor o waith ymchwilio, craffu a monitro arnynt yn y Pedwerydd Cynulliad, ym marn y Pwyllgor. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau dilynol ar y canlynol:

- gweithredu rhaglen adnewyddu'r economi Llywodraeth Cymru;
- cronfeydd strwythurol: gweithredu rhaglen 2007-13;
- cyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru;
- yr agenda ar gyfer gweddnewid addysg ôl 16;
- blaenraglenni rheilffyrdd a ffyrdd Llywodraeth Cymru; a
- y cynghorau sgiliau sector yng Nghymru.

Adroddiad etifeddiaeth

Ar 30 Mawrth 2011, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad etifeddiaeth, sy'n cynnig nifer o argymhellion sydd i'w hystyried yn y Cynulliad nesaf. Mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno i'r tua 350 o sefydliadau ac unigolion y bu'r Pwyllgor mewn cysylltiad cyson â nhw, fel arwydd o ddiolch am y cyfraniad a wnaed ganddynt i waith y Pwyllgor, a hefyd fel testament i bwysigrwydd dwyn Gweinidogion i gyfrif ar ran pobl Cymru er budd aeddfedrwydd democrataidd.

Gellir gweld yr adroddiad etifeddiaeth drwy ddilyn y linc a ganlyn:
http://www.cynulliadcymru.org/el_committee_legacy_report_-_e.pdf

Gair o ddiolch gan Gadeirydd y Pwyllgor

Bu'n fraint cael cadeirio'r Pwyllgor Menter a Dysgu trawsbleidiol yn ystod y Trydydd Cynulliad. Bu'r pedair blynedd ddiwethaf yn heriol ond eto'n foddhaol. Mae ein cylch gwaith, sef datblygu economaidd, addysg, sgiliau a thrafnidiaeth, wedi cwmpasu materion o bwys mawr i bobl Cymru ac i genedlaethau'r dyfodol. Gwelsom yr hinsawdd economaidd yn dirywio, gyda chyfnod o gyni caletach byth yn ein hwynebu o hyd.

Diolch o waelod calon i bawb sydd wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor dros y blynyddoedd ac i'r bobl niferus sydd wedi gweithio y tu ôl i'r llenni fel petai i gefnogi gwaith y Pwyllgor. Hoffwn dalu teyrnged hefyd i bob un o Aelodau'r Cynulliad a fu'n aelodau o'r Pwyllgor. Drwy eu hymrwymiad a'u penderfynoldeb, llwyddwyd i gydweithio ar draws ffiniau'r pleidiau.

Wedi dweud hynny, mae'r adroddiadau a gynhyrchwyd gennym ond cystal â'r dystiolaeth a gawsom. Drwy wrando ar eich barn a throsglwyddo eich syniadau, hyderaf fod ein hargymhellion i'r Gweinidogion wedi'u helpu i lywio polisïau a hyd yn oed i newid cyfeiriadau.

Mae craffu effeithiol yn hanfodol ar gyfer democratiaeth iach. Hyderaf ein bod, drwy ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar ran pobl Cymru, wedi helpu i newid bywyd llawer o bobl er gwell.

Gareth Jones AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Menter a Dysgu

Mae croeso i chi anfon y ddogfen hon ymlaen at unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith y Pwyllgor Menter a Dysgu yn ystod ei dymor olaf.

Manylion cysylltu:

Siân Phipps	Clerc	029 2089 8582	sian.phipps@cymru.gov.uk
Dan Collier	Dirprwy Glerc	029 2089 8020	daniel.collier@cymru.gov.uk
Mike Lewis	Cymorth i'r Pwyllgor	029 2089 8018	michael.lewis@cymru.gov.uk